



Polisi Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Dyddiad yr adolygwyd gan y Corff Llywodraethol: 26 Mawrth 2020

Llofnod y Cadeirydd: _____

Dyddiad yr adolygwyd gan y Corff Llywodraethol:

Llofnod y Cadeirydd: _____

Dyddiad yr adolygwyd gan y Corff Llywodraethol:

Llofnod y Cadeirydd: _____

Polisi Technoleg Gwybodaeth A Chyfathrebu

Rhagarweiniad

Mae'r polisi hwn yn amlinellu amcanion, egwyddorion a strategaethau'r ysgol ar gyfer cyflwyno Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu.

Mae gan y Pennaeth TGCh ynghyd a'r Rheolwr System gyfrifoldeb i dynnu sylw'r UDA at ddiffygion neu broblemau yn y system. Yn ogystal mae'r Rheolwr Rhwydwaith yn cymryd cyfrifoldeb am gynnal a chadw dydd i ddydd caledwedd. Mae'r Pennaeth, Pennaeth Cynorthwyol, y Bwrsar, y Pennaeth TGCh a'r Rheolwr System yn cydweithio er mwyn gwneud penderfyniadau ar gyfer uwchraddio'r system a'r caledwedd yn ôl y gofyn ac o fewn cyfyngiadau cyllidol. Mae manylion adnoddau caledwedd a meddalwedd ar gael gan y Rheolwr Rhwydwaith.

Pwysigrwydd Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Mae TGCh yn paratoi dysgwyr i fod yn rhan o fyd sy'n newid yn gyflym a lle mae gwaith a gweithgareddau arall yn cael eu gwednewid fwyfwy trwy fynediad i dechnoleg amrywiol a datblygol.

Defnyddia dysgwyr offer TGCh ar gyfer darganfod, archwilio, dadansoddi, cyfnewid a chyflwyno gwybodaeth yn gyfrifol, creadigol a chyda dirnadaeth.

Dysgant sut i ddefnyddio TGCh i alluogi mynediad cyflym i syniadau a phrofiadau ystod eang o bobl, cymunedau a diwylliannau. Mae cynnydd yn y gallu i ddefnyddio TGCh yn hyrwyddo menter a dysgu annibynnol; gyda dysgwyr yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus am sut a phryd i ddefnyddio TGCh yn effeithlon, ac ystyried goblygiadau ar gyfer gwaith a chartref nawr ac yn y dyfodol.

Cwmpas TGCh

Yr ydym yn dehongli'r term technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i gynnwys y defnydd o unrhyw offer sy'n galluogi'r defnyddiwr i gyfathrebu neu drin gwybodaeth yn electroneg.

Amcanion TGCh

Amcan TGCh ydy i gyfoethogi dysgu i bob dysgwr ac i sicrhau bod athrawon yn datblygu hyder a chymhwysedd i ddefnyddio TGCh yn yr addysgu effeithiol o'u pwnc.

Ein nod ydy datblygu dysgwyr sy'n ddefnyddwyr hyderus ac effeithiol o TGCh. Ymdrechwn i gyflawni hyn trwy:

- gynorthwyo dysgwyr i ddefnyddio TGCh yn fwriadol a chyda mwynhad;
- gynorthwyo dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol i ddefnyddio TGCh ac i ddeall pwysigrwydd gwybodaeth a sut i'w ddethol a'i baratoi;
- gynorthwyo dysgwyr i ddyfod yn ddefnyddwyr annibynnol ac i ddatblygu eu sgiliau ar gyfer defnyddio caledwedd a meddalwedd er mwyn eu galluogi i drin gwybodaeth;
- gynorthwyo dysgwyr i werthuso manteision TGCh a'i effaith ar gymdeithas;
- gwrdd â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a chynorthwyo dysgwyr i gyflawni'r safonau uchaf posib.
- gynorthwyo dysgwyr i ddatblygu agweddau ac arferion lechyd a Diogelwch da.

Cyfrifoldebau TGCh

Mae gan aelodau o staff gyfrifoldebau amrywiol ar gyfer sicrhau rhediad effeithiol TGCh o fewn yr ysgol. Nodir hwy isod,

Cyfrifoldeb	Gweithred
Pennaeth Cynorthwyol/ Pennaeth Adran TGCh/ Gweithgor TGCh	Adolygu a diweddarau'r polisi TGCh
Pennaeth Cynorthwyol/ Athrawon	Rheoli gweithrediad y polisi
PA TGCh/ Arweinydd TGCh Sgiliau Allweddol	Adolygu a diweddarau cynlluniau dysgu a sicrhau dilyniant a pharhad rhwng blynyddoedd
Pennaeth Cynorthwyol/ Bwsar/ Pennaeth TGCh/ Rheolwr Rhwydwaith	Archebu/diweddarau adnoddau
Pennaeth Cynorthwyol (DPP) / Pennaeth TGCh	Adnabod y gefnogaeth TGCh sydd angen ar staff
Pennaeth Cynorthwyol (DPP) / Pennaeth TGCh	Darparu cefnogaeth HMS i staff
Pennaeth Cynorthwyol (DPP) / Pennaeth B7	Cysylltu gydag ysgolion cynradd sy'n bwydo'r ysgol
Pennaeth TGCh	Asesu dysgwyr
Pennaeth/ Pennaeth Cynorthwyol (Cwricwlwm)	Cwrdd â gofynion statudol
Pennaeth/ Pennaeth TGCh	Datblygu a monitro'r cwricwlwm TGCh
Pennaeth TGCh/ Rheolwr Rhwydwaith	Goruchwylio cynnal a chadw offer
Bwsar Cynorthwyol	Goruchwylio polisi ac arferion lechyd a Diogelwch
Rheolwr Rhwydwaith	Darparu mynediad i TGCh ar gyfer staff
Rheolwr Rhwydwaith	Sicrhau dealltwriaeth staff o'r systemau ar gyfer logio diffygion a'r defnydd o'r rhyngwyd/e-bost
Rheolwr Rhwydwaith	Cadw a diweddarau cofnodion trwyddedau meddalwedd a'u lleoliad
Rheolwr Rhwydwaith	Cadw a diweddarau cofnod o offer caledwedd TGCh a'u lleoliad
Cydlynnyd TGCh ar draws y Cwricwlwm	Goruchwylio Sgiliau Allweddol TGCh
Pennaeth Cynorthwyol/ Gweithgor TGCh/ Athrawon	Adolygiad BECTA

Trefniadaeth Cwricwlwm

Mae dysgwyr yn cyrraedd yr ysgol gyda phrofiadau TGCh amrywiol; weithiau mae systemau a meddalwedd yn wahanol. Ystyriwn y dysgu blaenorol hyn fel mantais ac anelwn i adeiladu arno.

CA3 a CA4

- Mae gwersi TGCh ($\frac{1}{50}$) yn cael eu dysgu ymhob blwyddyn.
- Ym mlynnyddoedd 7, 8 a 9 mae dysgwyr yn dilyn rhaglen astudio a ddatblygwyd gan y Pennaeth Adran TGCh (MM).
- Ym mlwyddyn 10 ac 11 mae cyfle i ddysgwyr i astudio cwrs opsiwn TGAU TGCh (CBAC).

- Bydd pob dysgwr ar ddiwedd CA4 wedi cael y cyfle i baratoi portffolio o dystiolaeth ar gyfer cymhwyster Sgiliau Hanfodol TGCh Lefel 1 neu 2.
- Disgwylir i Benaethiaid Adran sicrhau bod dysgwyr yn derbyn cyfleodd amrywiol i ddatblygu sgiliau TGCh o fewn eu pwnc trwy gynnwys gweithgareddau TGCh wrth gynllunio cynlluniau dysgu pynciol.
- Wrth gynllunio gwersi sy'n gofyn am ddefnydd o offer technoleg gwybodaeth dylai athrawon baratoi rhai gweithgareddau sy'n rhoi cyfle i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau TGCh ac eraill sy'n canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau'r pwnc sy'n cael ei gefnogi gan TGCh.

CA5

- Cynigir gwersi ($1/50$) i bob dysgwr er mwyn eu paratoi ar gyfer Sgiliau Allweddol Lefel 2 neu Lefel 3(ar gyfer dysgwyr sydd eisoes wedi ennill cymhwyster TGAU). Disgwylir i athrawon pwnc ddarparu gweithgareddau addas ar gyfer dysgwyr a fydd yn eu galluogi i ddatblygu tystiolaeth portffolio addas.
- Cynigir cwrs UG a Lefel A TGCh, CBAC.

Argaeledd TGCh

Ar gyfer defnydd effeithiol o TGCh o fewn y cwricwlwm mae angen i ddysgwyr gael mynediad i amrywiaeth o offer TGCh:

- Bwriedir bod offer ar gael i ddysgwyr mewn modd sydd yn ateb eu gofynion cwricwlaidd.
- Defnyddir amrywiaeth o strategaethau gan gynnwys un cyfrifiadur mewn dosbarth, ystafelloedd rhwydwaith cyfrifiadurol pwrpasol ac adnoddau dysgu yn y llyfrgell,
- Mae gan yr ysgol dair ystafell rhwydwaith cyfrifiadurol (TG3, D6 a I6) sydd yn cael eu hamserlenni ar gyfer dosbarthiadau yn ystod yr wythnos. Mae'r gwersi hyn yn gymysgedd o wersi cyfrifiadurol a gwersi pwnc. Mae athrawon sydd heb eu hamserlenni ar gyfer ystafell ac sy'n dymuno ei ddefnyddio ar gyfer gwaith cyfrifiadurol yn gallu archebu ystafell yn ystod cyfnodau pan nad oes gwersi wedi eu nodi ar yr amserlen neu wneud trefniant i gyfnewid gydag athro arall.
- Mae gan bob ystafell ddysgu o leiaf un cyfrifiadur sydd wedi ei gysylltu i'r rhwydwaith. Yn yr ystafelloedd TGCh penodol, ystafelloedd staff, llyfrgell ac ati mae pob cyfrifiadur wedi eu cysylltu a'r rhyngwyd.
- Mae gan y mwyafrif o ystafelloedd dysgu fwrdd gwyn rhyngweithiol,
- Mae gan y Llyfrgell ysgol 12 cyfrifiadur sydd wedi eu cysylltu i'r rhyngwyd ac sydd at ddefnydd dysgwyr, yn bennaf y 6ed dosbarth yn ystod gwersi, a dysgwyr o bob oedran yn ystod egwyl a chinio.
- Yn ogystal mae nifer o gyfrifiaduron ar gael yn yr ystafelloedd Tiwtorial Cymraeg a'r Stiwdio Ddylunio ar gyfer defnydd grwpiau llai o ddysgwyr.
- Bwriadwn i gynnal a chadw a diweddarau offer yn ôl y galw ac fel y nodir yn y Cynllun Datblygu Ysgol. Bwriadwn hefyd i wella mynediad dysgwyr i adnoddau cyfathrebu electroneg dros gyfnod o amser er mwyn uchafu'r (*maximise*) mynediad i'r adnodd pwysig hwn.

Cyfle Cyfartal

- Yr ydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau fod pob dysgwr, beth bynnag eu rhyw neu hil, yn cael mynediad cyfartal i TGCh a chyfleodd amrywiol er mwyn datblygu eu gallu TG personol.
- Anogwn i ddysgwyr sydd â chyfrifiaduron yn y cartref i'w defnyddio ar gyfer mantais addysgiadol a chynigir, os dymunir, gyngor i rieni ar yr hyn sy'n addas.
- Gwneir ymdrech i sicrhau bod testun sy'n cael ei greu yn y cartref yn gallu cael ei drosglwyddo i gyfrifiadur yr ystafell ddosbarth. Rhaid i ddysgwr gael caniatâd athro cyn gwneud hyn.
- Bydd yr ysgol yn monitro lefel mynediad dysgwyr i gyfrifiaduron yn y cartref er mwyn sicrhau nad ydy rhai dysgwyr o dan anfantais annheg. Dylai athrawon sicrhau, os ydynt yn gosod gwaith sydd angen mynediad i gyfrifiadur, fod cyfleoedd yn yr ysgol i ddysgwyr sydd heb fynediad i offer cyfrifiadurol yn y cartref i gwblhau'r gwaith.

- Yr ydym yn cydnabod manteision a hyrwyddwn ddefnydd TGCh gan ddysgwyr gydag ADY. Mae defnydd TGCh yn gallu ymateb i anghenion unigol y dysgwyr, cynyddu mynediad i'r cwricwlwm a gwella sgiliau ieithyddol. Dylai athrawon sicrhau eu bod yn strwythuro eu deunyddiau dysgu er mwyn ymateb i unrhyw anhawster dysgu penodol sydd gan ddysgwyr. Os bydd achos yn codi, bydd yr ysgol yn ymdrechu i brynu adnoddau addas er mwyn gweddu i anghenion dysgu penodol y dysgwyr.

Asesu

Disgwylir i athrawon ddilyn canllawiau Polisi Asesu a Pholisi Marcio'r ysgol ac adran TGCh wrth asesu gwaith dysgwyr. Mae asesiad o allu TGCh dysgwyr yn cael ei gyflawni trwy gynllunio gweithgareddau cwricwlaidd addas sy'n gweddu gyda pholisi cyffredinol asesu ac adrodd yr ysgol.

CA3

Fel bydd athrawon TGCh yn gweithio trwy'r cynlluniau dysgu disgwylir iddynt gadw tystiolaeth o sampl o waith dysgwyr, naill ai gopi caled neu electroneg. Hefyd asesir dealltwriaeth dysgwyr o TGCH ar lafar trwy gynnal gweithgareddau holi ac ateb. Defnyddir hwn yn CA3 ar gyfer pennu lefel TGCh ddiwedd cyfnod i ddysgwyr.

Ar ddiwedd y flwyddyn academaidd gosodir arholiad mewnol ar gyfer B7, B8 a B9 a defnyddir rhain ar gyfer ychwanegu at y dystiolaeth asesu.

Anogir hefyd i athrawon pwnc gadw esiamplau o waith TGCh pynciol y dysgwyr a fydd yn cyfrannu at bortffolio sgiliau ysgol gyfan. Gall dysgwyr hefyd, os yn addas, ddefnyddio eu gwaith fel tystiolaeth portffolio TGCh Lefel 1.

CA4

Cesglir tystiolaeth o waith dysgwyr ar gyfer creu Portffolio Lefel 1/2 Sgiliau Allweddol TGCh ac asesir y gwaith yn ôl canllawiau'r cymhwyster.

CA5

Cesglir tystiolaeth o waith dysgwyr ar gyfer creu Portffolio Lefel 2 neu Lefel 3 Sgiliau Allweddol TGCh ac asesir y gwaith yn ôl canllawiau'r cymhwyster.

Hyfforddiant Staff

Mae'r gallu i gynnig profiadau o ansawdd uchel i ddysgwyr ac i gynnal systemau gweinyddol yr ysgol yn ddibynnol ar sgiliau a hyder staff yn eu defnydd o TGCh. Mae'r ysgol yn adnabod pwysigrwydd o hyfforddiant mewn swydd. Ystyrir y canlynol:

- Hyfforddiant ar gyfer datblygiadau cwricwlwm;
- Cefnogaeth dechnegol a hyfforddiant i athrawon. Anogir athrawon i ddatblygu eu cymhwysedd a'u hyder yn eu defnydd o TGCh trwy fynychu cyrsiau hyfforddiant addas naill ai yn allanol neu yn fewnol, ymarfer gydag offer newydd, cael mynediad yn y cartref i raglenni. Trefnir gwahanol weithgareddau yn ôl gofynion staff;
- Cefnogaeth ar gyfer datblygiad staff gweinyddol;
- Rheolaeth TGCh o fewn y dosbarth.

Trefnir amrywiaeth o weithgareddau yn ôl anghenion y staff.

Iechyd a Diogelwch

Mae'r ysgol yn cydnabod y pwysigrwydd o fod yn ymwybodol o faterion lechyd a Diogelwch wrth ddefnyddio offer TG:

- Profir offer symudol yn flynyddol a chyfrifiaduron bob tair blynedd o dan Rheoliad Trydan yn y Gweithle 1989.
- Sicrheir bod dysgwyr yn ymwybodol o'r ffordd gywir o eistedd wrth ddefnyddio cyfrifiaduron a'r angen i gymryd egwyl reolaidd os ydynt yn mynd i weithio am gyfnod hir o amser ar gyfrifiadur.
- Arddangosir Rheolau Ystafell Cyfrifiaduron ym mhob ystafell TGCh. Mae rheolau arbennig ar gyfer defnydd y rhyngwyd ac e-bost.
- Er diogelwch dysgwyr ni chaniateir mynediad i ystafell gyfrifiaduron heb bresenoldeb athro.
- Mae'r Ddeddf Lechyd a Diogelwch yn y Gweithle (Ionawr 1993) yn delio a gofynion ar gyfer lleoliad cyfrifiadur ac ansawdd sgrin. Dilynir y Gyfarwyddeb (*directive*) hon ar gyfer holl staff gweinyddol. Er i'r ddeddfwriaeth gynnwys gweithwyr yn unig yr ydym yn ceisio, lle mae'n bosib, i ddarparu amodau i ddysgwyr sy'n ateb y gofynion hyn.
- Mae gan yr ysgol system ddiogelwch. Sicrheir na all dysgwyr na phersonél anawdurdodedig gael mynediad i'r systemau asesu, gweinyddol a rheoli.
- Sicrheir bod ffeiliau a'r rhwydwaith yn cael ei gefn-gadw yn rheolaidd,
- Yn ogystal mae'r rhaglen wrth firws yn cael ei ddiweddarau yn gyson.

Monitro

Mae monitro yn cael ei gynnal gan (Pennaeth/Aelod o'r UDA/Cydlynnydd TGCh) yn y ffordd ganlynol:

- trafodaethau anffurfiol gyda staff;
- edrych ar waith dysgwyr;
- arsylwi gwersi;
- cysgodi athrawon a phlant.

Mae'r polisi yn cael ei adolygu yn flynyddol gan y Pennaeth Cynorthwyol, Pennaeth TGCh a'r Gweithgor TGCh a bydd adolygiad yn cynnwys holl staff yr ysgol bob tair blynedd.